**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Judith Paget CBE
Prif Weithredwr GIG Cymru
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Mawrth 2025

Annwyl Judith

Mae cyn aelodau o'r Grŵp Cyfeirio Cleifion Diabetes Cymru Gyfan, sydd bellach wedi'i ddirwyn i ben, wedi cysylltu â mi i ofyn i'r Pwyllgor ganfod drwy ba fecanwaith y mae Gweithrediaeth GIG Cymru yn gofyn barn cleifion, yn ogystal â chofnodi a rhannu'r farn honno. Rwyf hefyd wedi cael copïau o'ch gohebiaeth â nhw.

Yn ôl ei gyn aelodau, roedd y grŵp cyfeirio yn weithredol am nifer o flynyddoedd ac fe'i canmolwyd gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd am ei fewnwelediad i'r materion sy'n wynebu pobl sy'n byw gyda diabetes yng Nghymru bob dydd. Syndod, felly, oedd clywed ym mis Hydref 2024 y byddai'r grŵp yn cael ei ddirwyn i ben ac y byddai Fforwm Cleifion Diabetes newydd yn cael ei sefydlu fel isadran o'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Diabetes.

Yn eich ymateb i aelodau'r grŵp, rydych yn nodi, fel rhan o'r trefniadau cenedlaethol newydd ar gyfer Gweithrediaeth y GIG a'i rhwydweithiau clinigol, nad yw'n ofynnol i bob rhwydwaith gynnal grŵp cyfeirio cleifion cenedlaethol ar wahân.

Rwy'n nodi o'r ohebiaeth fod gwaith y Fforwm Cleifion Diabetes newydd wedi'i oedi o ganlyniad i bryderon a fynegwyd gan aelodau o'r fforwm sydd hefyd yn gleifion am y cylch gorchwyl a'r cod ymddygiad, a bod llais y claf bellach yn cael ei geisio a'i gasglu drwy gydweithio â Diabetes UK Cymru a sefydliadau eraill yn y trydydd sector.

O ganlyniad i'r pwyntiau uchod, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a ganlyn:

- sut yn union y mae llais y claf yn cael ei glywed yn absenoldeb grŵp ffurfiol o gynrychiolwyr cleifion;
- a ydych yn hyderus bod y trefniadau hyn yn ddigon cadarn i nodi'r ystod lawn o leisiau cleifion;
- pa waith sy'n cael ei wneud i ddatrys y materion sy'n gysylltiedig â'r cylch gorchwyl a'r cod ymddygiad fel y gall y Fforwm Cleifion Diabetes ddechrau ar ei waith; a
- pha rôl fydd gan gyn-aelodau o'r Grŵp Cyfeirio Cleifion Diabetes Cymru Gyfan yn y trefniadau newydd?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.